Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Y Comisiwn Etholiadol

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 334 (Cymru) - 30 Tachwedd 2022

## Deddf Etholiadau: ID Pleidleisiwr: diweddariad ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd

Fel yr amlygwyd mewn Bwletinau blaenorol, cyn etholiadau lleol Lloegr ym mis Mai 2023, byddwn yn lansio ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus newydd yn Lloegr ym mis Ionawr, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad ID pleidleisiwr ac atgoffa'r pleidleiswyr hynny sydd ag etholiadau i fynd â'u ID gyda nhw i'r orsaf bleidleisio. Bydd ein hymgyrch hefyd yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r opsiwn i wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr os nad oes ganddynt fath o ID derbyniol yn barod.

Bydd yr ymgyrch wedyn yn cael ei chyflwyno ledled Cymru cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Yn achos unrhyw is-etholiad Senedd y DU ar ôl i'r newidiadau ddod i rym, byddem yn gweithio'n agos gyda'r tîm cyfathrebu lleol a chefnogi'r Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol i godi ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr ynghylch y gofyniad newydd.

**Cysyniad creadigol yr ymgyrch: 'Nodyn i'ch hunan'**

Enw ein hymgyrch newydd yw 'Nodyn i'ch Hun' a bydd yn cynnwys nodiadau gludiog anferth gyda nodiadau atgoffa mewn llawysgrifen i ddod ag ID i'r orsaf bleidleisio. Gall pleidleiswyr ddisgwyl gweld ein nodiadau atgoffa gludiog ar hysbysfyrddau a bysiau, ar-lein ar eu ffrydiau cymdeithasol a baneri ar wefannau, ac mewn papurau newydd lleol.

Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gallai'r ymgyrch edrych.

## Cynnwys

**Deddf Etholiadau: ID Pleidleisiwr: diweddariad ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd**

Diweddariad ar ymgyrch y Comisiwn i gefnogi cyflwyno ID Pleidleiswyr.

**Canfas 2022: casglu data cofrestru etholiadol**

Gwybodaeth am gasgliad y Comisiwn o ddata ar ôl cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf**




Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.




**Datblygu'r ymgyrch creadigol**
Fe wnaethom gynnal profion gyda 1700 o bobl o bob rhan o'r DU. Dangosodd sesiynau ansoddol a meintiol fod ein defnydd o nodiadau gludiog yn drawiadol, yn gryf ac yn ciw gweledol effeithiol y mae pobl o bob cefndir yn ei adnabod ac yn gallu uniaethu ag ef.

*“Gall y rhan fwyaf o bobl uniaethu ag ysgrifennu [nodyn gludiog] i’w hunain i’w hatgoffa o rywbeth pwysig. Mae’r hysbyseb wedi ceisio ymgorffori sefyllfaoedd/amgylchedd byw/gweithio’r rhan fwyaf o bobl.” Cyfranogwr ymchwil*

*“Fel person awtistig rwy’n mynd yn ddryslyd yn hawdd ac yn anghofio pethau, yn enwedig pan fyddaf wedi fy ngorlwytho neu’n wedi fy ysgogi gormod Gall hysbysebion fod yn or-ysgogol ac yn*

*anodd rhoi sylw iddynt. Mae'r hysbyseb hon yn syml ac yn glir yn ei neges ac roedd yn hawdd iawn ei deall." Cyfranogwr ymchwil*

Byddwn yn hysbysebu ar draws cyfuniad o gyfryngau torfol a hysbysebu digidol wedi'i dargedu er mwyn sicrhau bod yr ymgyrch yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys Teledu, Allan o'r Cartref (hysbysfyrddau), Fideo ar Alw, radio, print, cyfryngau cymdeithasol a mwy.

**Pecynnau partneriaid**
Bydd y cysyniad 'Nodyn i'ch Hun' yn cael ei drosglwyddo i'n hadnoddau ar gyfer ein partneriaeth er mwyn helpu i feithrin cydnabyddiaeth ac adalw.

Mae hyn yn cynnwys ein hadnoddau generig i'ch helpu i ymhelaethu ar negeseuon allweddol yr ymgyrch, a hefyd ein hadnoddau partner pwrpasol ar gyfer grwpiau allweddol sy'n llai tebygol o fod â mathau o ID cymwys neu sydd efallai angen cymorth ychwanegol.

Mae grwpiau allweddol yn cynnwys:

- Pobl anabl
- Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Pobl hŷn
- Pobl sy'n profi digartrefedd
- Pobl sydd wedi cofrestru fel pleidleiswyr dienw
- Pobl drawsrywiol ac anneuaidd

Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau cymdeithas sifil yn Lloegr i ddatblygu'r adnoddau hyn, gan gynnwys canllawiau i staff a gwirfoddolwyr, taflenni a chopi templed i'w defnyddio mewn cylchlythyrau.

Byddwn yn cysylltu gydag ein partneriaid yng Nghymru yn gynnar yn 2023 i lywio ein cynllunio ar gyfer y gwaith hwn yng Nghymru, yn ogystal â defnyddio'r hyn a ddysgwyd o ymgyrch etholiadau lleol Lloegr i lywio ein dull gweithredu.

## Canfas 2022: casglu data cofrestru etholiadol

Fel y gwyddoch, bob blwyddyn mae'r Comisiwn yn casglu data cofrestru etholiadol gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn dilyn y canfasiad blynyddol a chyhoeddi'r cofrestrau etholiadol diwygiedig.

Mae'r data hwn yn chwarae rhan bwysig yn ein hadroddiadau ar gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr ac yn ein helpu i ddangos sut mae'r prosesau canfasio yn gweithio'n ymarferol.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chyflenwyr meddalwedd rheoli etholiadol i sicrhau bod y data ar gael yn eich systemau. Byddwn yn gofyn am yr un data ag yn 2021, gyda dim ond ychydig o fân newidiadau i allforio data.

Byddwn mewn cysylltiad trwy e-bost yn fuan i ofyn am y data a byddwn yn cadarnhau bryd hynny sut y gellir cynhyrchu'r adroddiadau perthnasol.

Hoffem ddiolch i chi o flaen llaw am eich cefnogaeth gyda'r gwaith hwn ac am yr amser a gymerwyd i roi'r data i ni.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2022